| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 19 Gorffennaf 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cyng Hugh Evans - Arweinydd |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio |
| **Teitl:** | **Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2016-17** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerir yn y Cyngor i ymateb i'r cynigion ar gyfer gwelliant a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-2017 ar gyfer CSDd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybod i Aelodau'r Cyngor am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a'r camau a gymerir i ymateb iddo.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn nodi cynnwys yr Adroddiad Gwella Blynyddol a'r camau gweithredu a gynllunnir i ymateb iddo, a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn grynodeb o waith archwilio diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys astudiaethau ar Lywodraethu, Rheoli gwybodaeth a defnyddio adnoddau. Ni wnaed argymhellion sylweddol ar gyfer newid, ac mae'r adroddiad yn gadarnhaol iawn am y Cyngor ar y cyfan, ond mae chwe 'cynnig ar gyfer gwelliant', y dylem eu hystyried. Mae pob un o'r rhain wedi eu rhestru isod, gydag amlinelliad byr o'r camau gweithredu rydym yn eu cymryd neu yn cynnig eu cymryd mewn ymateb.

| | Cynnig | Diweddariad y Cyngor |
|---|---|---|
| **C1** | **Cryfhau trefniadau llywodraethu** drwy:<br>• fonitro pob newid sylweddol mewn gwasanaeth yn gyson ac amserol | Mae trefniadau cadarn yn eu lle i fonitro newid mewn gwasanaeth. Bydd hyn yn parhau i fod yn rôl arweiniol ar gyfer Archwilio a'r broses Herio Gwasanaeth yn benodol. |
| **C2** | **Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol** drwy:<br>• ddatblygu Polisi Cynhyrchu Incwm/Codi Tâl; | Byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet erbyn hydref 2017 i amlinellu sut rydym yn cynnig cryfhau ein trefniadau yn y maes hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| | • rhoi sgôr risg ffurfiol i arbedion yn ôl pa mor hawdd yw eu cyflawni, a nodi camau gweithredu lliniarol cynaliadwy i'r rhai risg uchel. | Byddwn yn mabwysiadu system well o roi sgôr risg i'n cynlluniau effeithlonrwydd mewn pryd ar gyfer rownd 2018/19 |
| **C3** | **Cryfhau trefniadau rheoli pobl drwy:**<br>• ddatblygu dull i sicrhau gall gweithwyr sydd â mynediad cyfyng neu ddim mynediad i'r fewnrwyd gael mynediad at wybodaeth AD berthnasol;<br>• sicrhau bod amrywiadau ac anghysonder o ran gweithredu polisïau AD yn cael eu hosgoi ar gyfer gweithwyr rheng flaen nad ydynt yn gweithio yn y swyddfa. | O fis Medi 17, bydd mewnrwyd AD ar gael i'r staff i gyd drwy'r rhyngrwyd.<br><br>**Ar hyn o bryd rydym yn adolygu ein trefniadau gweithio hyblyg gyda'r bwriad o gynyddu cysondeb dull gweithredu ar draws y Cyngor** |
| **C4** | **Cryfhau trefniadau rheoli asedau drwy:**<br>• sicrhau bod camau gweithredu sydd eisoes ar waith i foderneiddio trefniadau rheoli asedau corfforaethol yn hybu defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o bortffolio tir ac eiddo'r Cyngor ac yn atgyfnerthu ei gyfraniad fel adnodd strategol | Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu gwelliannau i'w brosesau rheoli asedau. Mae'r trefniadau Grŵp Rheoli Asedau newydd wedi'u gweithredu ac maent yn gweithio'n effeithiol. Daeth y cyfnod ymgynghori ar y Strategaeth Rheoli Asedau newydd i ben ym mis Mai 2017, a'r disgwyliad yw y bydd y strategaeth yn cael ei mabwysiadu yn yr haf, ochr yn ochr â hyn mae cyfres newydd o fesurau perfformiad yn cael eu datblygu a'u symleiddio i lywio penderfyniadau am eiddo yn y dyfodol. Mae system cronfa ddata newydd - Yr Efail Dechnoleg – wedi'i chomisiynu a fydd yn dod â data a gedwir mewn nifer o systemau ynghyd, gan gyflwyno manteision effeithlonrwydd a gweithredol sylweddol. |
| **P5** | **Cryfhau trefniadau TGCh drwy:**<br>• sicrhau bod y Cyngor yn ymgynghori â'i wasanaeth TGCh dros pob pryniant technoleg ar gyfer pryniannau strategol ac arferol;<br>• sicrhau bod arbenigedd TGCh digonol wedi'i chynnwys mewn caffaeliadau a gweithrediadau ar raddfa fwy neu risg uwch | Mae'n ofyniad yn y strategaeth TGCh fod y gwasanaeth TGCh yn cymeradwyo pob pryniant technoleg. Mae hyn yn cael ei weithredu'n gryf.<br><br>Mae'r trefniadau partner Busnes yn y Gwasanaeth yn sicrhau bod arbenigedd TGCh ar gael i rai sy'n gwneud penderfyniadau sy'n ystyried buddsoddiad yn y maes hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **P6** | **Cryfhau trefniadau Rheoli Gwybodaeth drwy:**<br>• sicrhau bod trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth yn bodloni gofynion safonau rhyngwladol ac yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o'r Cyngor;<br>• estyn y cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth i gynnwys anghenion gwybodaeth fusnes yn ogystal â'r gofynion ar gyfer cydymffurfio;<br>• datblygu Strategaeth Wybodaeth, sy'n gysylltiedig â strategaethau adnoddau eraill, i lunio defnydd gwybodaeth a sicrhau gwybodaeth. | Mae'n adeg adnewyddu Strategaeth Rheoli Gwybodaeth bresennol y Cyngor. Mae argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu i atgyfnerthu'r angen am strategaeth o'r fath. Bydd Strategaeth Rheoli Gwybodaeth newydd yn cael ei datblygu yn ystod Chwarter 3 2017.<br><br>Mae'r prosiect System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS) wedi bod yn llwyddiannus o ran cefnogi symudiad y Cyngor tuag at weithio electronig a chreu amgylchedd di-bapur. Mae'r prosiect presennol wedi'i ariannu tan fis Mawrth 2019. Bydd y prosiect yn parhau i weithio ar amserlen gwaith i'r dyfodol a gytunwyd. Bydd angen i drafodaethau gael eu cynnal yn fuan i drafod darpariaeth ar gyfer rheoli dogfennau electronig ar ôl mis Mawrth 2019. |
| | | |

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn darparu golwg ar gynnydd y Cyngor ac yn cefnogi gwelliant parhaus.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r Cyngor yn deillio o'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Ni gynhaliwyd unrhyw ymgynghoriadau.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r camau gweithredu i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwelliant wedi eu nodi'n glir. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol sylweddol yn ymwneud â'r pwyntiau a nodwyd. Er bod polisi'r cyngor ar ffioedd a thaliadau wedi ei ddiffinio'n glir a bod incwm yn cael ei adolygu fel rhan o'r gyllideb, caiff rhai gwelliannau i'r maes polisi cynhyrchu incwm/codi tâl ehangach eu cyflwyno a'u ffactorio i gynlluniau ariannol yn y dyfodol.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Byddai methu ag ystyried cynnwys yr adroddiad gwella blynyddol yn iawn ac yn arbennig unrhyw gynigion ar gyfer gwelliant, yn risg i enw da'r Cyngor, yn ogystal â lleihau ein rhagolygon ar gyfer gwelliant o bosibl.

**11. Grym i wneud y Penderfyniad**

Nid oes angen gwneud penderfyniad.